# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

Heol y Bardd, Porth Tywyn,
Sir Gaerfyrddin SA16 0NL
Ffôn:- 01554 832101
Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru
www.ysgolparcytywyn.co.uk
Pennaeth / Headteacher : Mrs. A. Williams


## Defnydd Ffonau Symudol ag Oriawr Smart – Blynyddoedd 5 a 6

31/01/24

Annwyl Riant/Gwarchodwr,

Rydym wedi sylwi ar gynnydd sylweddol yn nifer ein plant yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n dod â ffonau symudol ac oriawr smart (lle maent yn gallu anfon a derbyn negeseuon testun a defnyddio apiau) i'r ysgol.

Deallwn bod y dyfeisiau hyn yn rhoi ffordd i'r plant gyfathrebu â'u teulu cyn ac ar ôl ysgol pan fo angen. Hoffwn ofyn i rieni ddarllen y cytundeb defnydd derbyniol atodedig gyda'ch plentyn heno sy'n amlinellu ein rheolau ar gyfer cael ffôn symudol/oriawr ddigidol ar ein safle. Ar ôl eu darllen, llofnodwch y ffurflen ddigidol sydd ynghlwm er mwyn i ni gael cofnod o'r cytundeb hwn.

Os bydd y cytundeb hwn yn cael ei dorri, yna byddwn yn adolygu os gall eich plentyn barhau i ddod â dyfais i'r ysgol. Yn ystod y toriad bydd y ddyfais yn cael ei chadw gyda'r Pennaeth hyd nes y gall rhieni ddod i'r ysgol i'w chasglu.

- RHAID rhoi ffonau symudol i'r athro/athrawes dosbarth wrth gyrraedd yr ysgol i'w storio'n ddiogel. Ni ddylai'r dyfeisiau hyn gael eu tynnu allan a'u defnyddio o dan unryw amgylchiadau ar safle ein hysgol neu wrth ddod i mewn/gadael safle'r ysgol.

- Os bydd plentyn yn colli neu'n difrodi eu dyfais, tra ein bod yn cydymdeimlo, nid ydym yn atebol am unrhyw golled neu gost i adnewyddu neu atgyweirio hwn.

Gwyddom y gall ffonau symudol/oriawr ddigidol fod yn adnodd gwerthfawr a phwysig i'n plant; rydym yn aml yn trafod defnydd diogel o'r dyfeisiau hyn, yn gyffredinol ac fel rhan o'n gwersi diogelwch ar-lein. Mae'r cytundeb hwn yn estyniad o'r agwedd allweddol hon o ddiogelwch ar-lein, gan ein bod am i'r plant ddatblygu arferion synhwyrol ynghylch eu defnydd a bod yn ymwybodol bod yna adegau pan nad yw defnyddio dyfais yn briodol.

Felly, hoffwn eich annog i gymryd hyn i ystyriaeth cyn anfon eich plentyn i'r ysgol gyda dyfais.

Yr eiddoch yn gywir,

***A. Williams***
Pennaeth / Headteacher


CYMRU DROS HEDDWCH WALES FOR PEACE
CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND
Eco-Sgolion
International School Award
Ysgolion Iach Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire's Healthy Schools Scheme
FAIRTRADE CYFLAWNI'N DEG

# Cytundeb Defnydd Derbyniol Ffôn Symudol ag Oriawr Smart Ysgol Parc y Tywyn

- Rwy'n gwybod bod cael ffôn symudol/oriawr smart yn fraint ac yn gyfrifoldeb.

- Rwy'n cael dod â'r ddyfais i'r ysgol er mwyn fy helpu i gyfathrebu gyda fy nheulu ar ôl ysgol pan fydd angen.

Rwy'n cytuno i ddilyn y rheolau hyn pan fyddaf yn dod â'r ddyfais i'r ysgol:

- ✓ Byddaf yn troi fy ffôn i ffwrdd pan fyddaf yn cyrraedd glwyd yr ysgol ac yn sicrhau ei fod yn aros i ffwrdd ar gyfer y diwrnod ysgol.
- ✓ Yn ystod y diwrnod ysgol byddaf yn sicrhau bod fy ffôn yn cael ei gadw mewn blwch neu le diogel arall a ddarperir gan fy athro.
- ✓ Byddaf yn gosod fy oriawr smart i fodd 'Peidiwch ag Aflonyddu' am y diwrnod cyn cyrraedd yr ysgol.
- ✓ Ni fyddaf yn defnyddio fy nyfais tra yn yr ysgol am unrhyw reswm, oni bai bod oedolyn yn gofyn i mi wneud hynny.
- ✓ Byddaf yn aros tan fy mod y tu allan i glwyd yr ysgol i droi fy nyfais symudol ymlaen a'i ddefnyddio ar ddiwedd y dydd.
- ✓ Ni fyddaf yn rhannu fy rhif ffôn gydag unrhyw blant eraill heb ganiatâd fy rhieni.
- ✓ Ni fyddaf byth yn rhoi'r pin, cyfrinair nac unrhyw wybodaeth mynediad arall a fyddai'n caniatáu i eraill ddefnyddio fy nyfais.
- ✓ Ni fyddaf yn defnyddio fy nyfais i wneud fideos, recordiadau na thynnu lluniau ohonof fy hun neu blant eraill tra yn yr ysgol neu'n agos ati.

**Llofnodwch y ffurflen atodedig i ddangos eich bod wedi darllen a deall y cytundeb hwn**

https://forms.office.com/e/nVBSRF7JSZ